CRICED CYMRU
CRICKET WALES

# Cyfarwyddwr Anweithredol
# Disgrifiad Swydd

**Bwrdd Cyfyngedig Criced Cymru**

Mae Erthyglau'r Cwmni, fel ym Mai 2021, yn darparu ar gyfer Bwrdd Cyfarwyddwyr sy'n cynnwys:

- 5 Cyfarwyddwr Criced Hamdden o faes criced hamdden yng Nghymru
- 5 Cyfarwyddwr annibynnol o faes gweinyddu criced yng Nghymru
- 1 Cyfarwyddwr a enwebir gan Criced Morgannwg
- Cyfarwyddwr Cyllid
- Cadeirydd Annibynnol
- Prif Weithredwr.

Penodir Cyfarwyddwyr am gyfnod o dair blynedd a gallant wasanaethu am uchafswm o naw mlynedd yn olynol.

Penodir Cyfarwyddwyr Bwrdd Criced Cymru yn erbyn set o sgiliau technegol, gwybodaeth a phrofiad, yn ogystal â chymwyseddau ac ymddygiad.

**Yn atebol i**: Gadeirydd y Bwrdd

**Perthnasoedd gwaith allweddol:** Is-bwyllgorau'r Bwrdd ac aelodau cyfethol y Bwrdd, yr Uwch Dîm Gweithredol, Clybiau a chyrff cyswllt eraill, Bwrdd Criced Cymru a Lloegr (ECB), Chwaraeon Cymru, Awdurdodau Lleol / Aelodau'r Senedd.

Pwrpas Bwrdd Cyfarwyddwyr Criced Cymru yw hybu, deall a hwyluso'r gwaith o gyflenwi a gwireddu potensial criced hamdden yng Nghymru, gan gynnwys criced iau, criced hŷn, a sicrhau bod y gêm yn cyrraedd pob cornel o Gymru, gan ehangu ei hapêl i gynulleidfaoedd newydd.

**Crynodeb o'r swydd**

- Mae Cyfarwyddwyr Anweithredol yn gyfrifol am sicrhau bod y cwmni'n cwrdd â'i oblygiadau cyfreithiol, ac am berfformiad Criced Cymru o ran ei genhadaeth a chyflenwi'i strategaeth.
- Mae pob Cyfarwyddwr yn aelod cyfartal o'r Bwrdd, gyda'r un cyfrifoldeb â'r Cyfarwyddwyr eraill dros lwyddiant y sefydliad i ddarparu criced o fewn ein cymunedau, a sicrhau bod yna gydymffurfio â'r holl safonau allweddol, a materion llywodraethu ac arweinyddiaeth.
- Mae Cyfarwyddwyr Anweithredol yn darparu trosolwg, craffu, her ac arweinyddiaeth briodol i'r cwmni yn ei nod o ddarparu gwasanaethau effeithiol o safon uchel i'w aelodau, a thyfu criced yng Nghymru.
- Mae gan Gyfarwyddwyr Anweithredol rôl arbennig i'w chwarae yn craffu ar berfformiad yr uwch dîm rheoli gweithredol, i sicrhau bod y nodau a'r amcanion a gytunwyd yn cael eu cyflawni, ac yn monitro'r modd yr adroddir ar berfformiad.



Disgwylir i Gyfarwyddwyr Anweithredol gyfrannu at waith y Bwrdd yn y meysydd canlynol:

**Strategaeth**

- Gweithio gydag aelodau eraill y Bwrdd i fonitro, adolygu a rhoi gweledigaeth, gwerthoedd, nodau ac amcanion strategol y cwmni ar waith, gan gyflawni cynllun busnes ac ariannol cadarn a chynaliadwy.
- Helpu i sefydlu strategaeth glir a set o amcanion i  barhau i gwrdd â thelerau'n prif arianwyr a gwireddu'n gweledigaeth, ac adolygu perfformiad yn rheolaidd yn erbyn yr amcanion hyn.
- Sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y cwmni.
- Cymryd rhan weithredol fel aelod o'r Bwrdd yn y broses o wneud penderfyniadau, i sicrhau bod yr holl opsiynau'n cael ystyriaeth lawn yn ystod y broses.
- Adolygu a gwerthuso cyfleoedd, bygythiadau a risgiau yn yr amgylchedd allanol, nawr ac yn y dyfodol, a chryfderau, gwendidau a risgiau i'r sefydliad a'r gêm, nawr ac yn y dyfodol, yng Nghymru a thu hwnt.
- Bod â gwerthfawrogiad o natur amrywiol a chymhleth criced yng Nghymru, ein daearyddiaeth, a'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'n cymunedau gwahanol.

**Adnoddau dynol**

- Cefnogi, annog, a phan fo'n briodol, mentora uwch aelodau'r tîm mewn meysydd gwybodaeth ac arbenigedd penodol.
- Bod yn gyfrifol, ar y cyd â'r Cadeirydd, am eich datblygiad personol eich hun, a sicrhau ei fod yn flaenoriaeth bob amser.
- Defnyddio'ch gallu fel arweinydd a'ch gwybodaeth bersonol o'r gymuned i gynghori a chynorthwyo cydweithwyr a chefnogi rhaglenni gwaith allweddol.
- Darparu pwynt mynediad diogel ar gyfer chwythwyr chwiban.
- Cyfrannu at yr adolygiad blynyddol o berfformiad y Cadeirydd.

**Cyfathrebu**

- Gweithredu fel llysgennad ar gyfer Criced Cymru a bod yn wybodus ac yn ymwybodol o faterion lleol a chenedlaethol sy'n effeithio ar y gêm.
- Cynnal gwerthoedd y sefydliad gan osod esiampl briodol a sicrhau, fel aelod o'r Bwrdd, eich bod yn hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer yr holl staff, cyfranogwyr  a rhanddeiliaid eraill.
- Datblygu perthynas waith adeiladol â'r Cadeirydd, y Cyfarwyddwyr Anweithredol, eich cyd-aelodau ar is-bwyllgorau a'r Uwch Dîm Gweithredol, gan ddarparu cymorth ac arweiniad mewn meysydd gwybodaeth ac arbenigedd penodol.




**Cydymffurfio**

- Fel aelod o'r Bwrdd, sicrhau bod Criced Cymru'n cydymffurfio â'r safonau a osodir gan arianwyr, ac unrhyw ddeddfwriaeth a gofynion eraill perthnasol.
- Fel aelod o'r Bwrdd, hyrwyddo'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol, sy'n cydymffurfio ag unrhyw godau a fframweithiau priodol neu berthnasol.
- Asesu ansawdd a chywirdeb gwybodaeth ariannol, manylion cyfranogiad, a gwybodaeth arall a gyflwynir i'r Bwrdd.
- Sicrhau bod rheoliadau cyllid a rheoliadau ansawdd eraill, polisïau, prosesau a systemau rheoli risg a llywodraethu, yn gadarn ac yn cael eu rhoi ar waith.

**Disgwylir i holl Gyfarwyddwyr Criced Cymru:**

- Gynnal y safonau moesegol uchaf o onestrwydd a chywirdeb
- Diogelu enw da Criced Cymru
- Cwestiynu'n ddeallus, dadlau'n adeiladol, herio'n drylwyr a gwneud penderfyniadau pwyllog
- Gwrando mewn modd sensitif ar farn pobl eraill, tu mewn a thu allan i'r Bwrdd
- Ennyn ymddiriedaeth a pharch Cyfarwyddwyr eraill y Bwrdd a'r aelodau
- Hyrwyddo buddiannau strategol Criced Cymru, yn fewnol ac yn allanol, a chefnogi'n gyhoeddus y penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd bob amser.
- Hyrwyddo a gwneud penderfyniadau effeithiol, seiliedig ar dystiolaeth a dadleuon adeiladol.
- Osgoi sefyllfaoedd lle mae buddiannau Criced Cymru'n gwrthdaro â buddiannau personol, rolau criced eraill, neu ddyletswydd i drydydd parti – ac mewn sefyllfa o'r fath, datgan y buddiant hwnnw.
- Cymryd rhan gyda hyd at 2 o is-bwyllgorau'r Bwrdd, yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Enwebu.
- Cydymffurfio bob amser â'r polisi iechyd a diogelwch a'r polisi diogelu a gyhoeddwyd, a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cyfarwyddwyr.

**Ymrwymiad o ran amser / tâl**

- **Cyfarfodydd Bwrdd** – cynhelir y rhain hyd at chwe gwaith y flwyddyn, fel arfer yn Stadiwm Gerddi Sophia, Caerdydd, ond hefyd mewn lleoliadau eraill ledled Cymru, ac, os oes angen, trwy delegynhadledd Teams/Zoom
- **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**– cynhelir hwn fel arfer ym mis Medi/Hydref a gosodir y dyddiad ymlaen llaw. Disgwylir i Gyfarwyddwyr y Bwrdd fynychu'r digwyddiad hwn (un ai wyneb yn wyneb neu ar-lein).
- **Gweithgareddau swyddogol Criced Cymru** – gofynnir i Gyfarwyddwyr y Bwrdd fynychu digwyddiadau swyddogol megis cyflwyniadau, rowndiau terfynol cystadlaethau a chyfarfodydd perthnasol eraill. Derbynnir y bydd hyn yn dibynnu ar eich argaeledd, ac felly ni osodir nifer penodol o ddigwyddiadau/diwrnodau.
- **Costau** – telir costau teithio ar gyfradd benodedig o 40c y filltir. Ad-dalir costau eraill rhesymol megis tocynnau trên, costau llety ac ati.

- **Tâl/cydnabyddiaeth ariannol** - mae holl Gyfarwyddwyr y Bwrdd, ar wahân i'r Prif Weithredwr, yn rolau anweithredol ac felly maent yn wirfoddol a di-dâl.

**Diwylliant perfformiad uchel Criced Cymru**
Nod Criced Cymru yw datblygu diwylliant lle mae perfformiad uchel yn norm, gyda phobl yn cael eu cefnogi i berfformio hyd eithaf eu gallu. Yn ogystal â sgiliau technegol, gwybodaeth a phrofiad, datblygwyd y cymwyseddau a'r ymarweddiadau fydd yn cefnogi'r nod hwn, ac rydym am weld y rhain ym mhawb sy'n perthyn i Criced Cymru.




<u>**Sgiliau a Chymwyseddau Technegol Allweddol rydym yn awyddus i'w denu – a'u cadw – ar y Bwrdd**</u>

Mi fydd angen ichi arddangos gwybodaeth, profiad ac arbenigedd o fewn nifer o'r sgiliau a'r cymwyseddau hyn. Ar gyfer y rownd hon o recriwtio, rydym yn chwilio yn arbennig am bobl sydd â sgiliau, gwybodaeth a phrofiad o gynllunio strategol, tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant, rheoli newid, rheoli rhanddeiliaid, adolygu perfformiad gweithredol, cynllunio ariannol a chyllidebu, a rheoli risg.

**Sgiliau technegol, gwybodaeth a phrofiad**
- **Profiad o Fwrdd Cyfarwyddwyr/Uwch-bwyllgorau** - profiad o wasanaethu ar fyrddau neu uwch-bwyllgorau'r sector cyhoeddus, y sector preifat neu gwmnïau nid-er-elw. Profiad neu ddealltwriaeth o bolisïau llywodraethu da
- **Gwerthfawrogiad o griced a'i werthoedd**
- **Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant** – gwybodaeth a phrofiad o gyfrannu at ddatblygiad diwylliant sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn gosod gwerth ar amrywiaeth a chynhwysiant
- **Rheoli newid** – profiad o arwain a rheoli newid o fewn sefydliad
- **Cynllunio a ffocws strategol** - profiad o gynllunio, gweithredu a gwerthuso cynllun strategol
- **Cysylltiadau strategol** - profiad o gysylltiadau strategol a chyfathrebu, gwybodaeth a phrofiad effeithiol o'r dirwedd chwaraeon ehangach a dylanwadau allanol, partneriaid a rhanddeiliaid

- **Cyswllt ag aelodau** - profiad o reoli cysylltiadau ag aelodau a chwsmeriaid a chyfathrebu effeithiol
- **Ffocws masnachol** - profiad o fenter gymdeithasol, cynhyrchu incwm, gan gynnwys nawdd, a datblygu modelau busnes proffidiol
- **Adnoddau dynol/Adolygu perfformiad gweithredol** - gwybodaeth a phrofiad o ystyriaethau adnoddau dynol, gan gynnwys recriwtio gweithredol, adolygu perfformiad, datblygiad a chefnogaeth broffesiynol
- **Gwybodaeth ariannol -** gwybodaeth a phrofiad o gynllunio/rheolaeth ariannol, defnydd cywir o reolyddion mewnol a gofynion archwilio Bwrdd nid-er-elw
- **Asesu risg** - profiad o nodi a rheoli risg
- **Cyfrifoldeb llysgenhadol** - profiad o ymgymryd â rôl llysgennad ar ran sefydliad, gan fynd ati ar yr un pryd i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd i ddatblygu'r sefydliad ymhellach.

**Cymwyseddau**

- **Gwaith tîm** - gweithio ar y cyd ag eraill gan sicrhau cyfranogiad ar draws y busnes, a gyda phartneriaid allweddol yn ogystal, i gynorthwyo i gyflawni amcanion Criced Cymru
- **Cyfathrebu** - cyfathrebu gydag eraill mewn ffordd glir, gryno a phwrpasol i adeiladu perthynas dda ag eraill a chael cefnogaeth ac ymroddiad ar gyfer syniadau
- **Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol** - yn llawn brwdfrydedd dros gynnig gwasanaeth rhagorol i 'gwsmeriaid' mewnol ac allanol, sydd o fudd i'r 'cwsmer' a Criced Cymru fel ei gilydd
- **Gwneud penderfyniadau a datrys problemau** - defnyddio sgiliau dadansoddi, doethineb, profiad a dulliau rhesymegol i ddatrys problemau a chanfod atebion effeithiol
- **Cyflawni** - cwblhau gwaith o safon uchel yn gyson a chwilio am ffyrdd o wella'u perfformiad eu hunain ac eraill bob amser
- **Arweinyddiaeth** - mynd ati i ddylanwadu ar, a gwella arferion busnes a newidiadau sefydliadol, trwy roi arfer da ar waith
- **Rheolaeth strategol** – darparu eglurder, cyfeiriad ac ysbrydoliaeth trwy weledigaeth gadarn ar gyfer y dyfodol a'r hyn y gellir ei gyflawni.




**Cymhwysedd i fod yn Gyfarwyddwr Cwmni**

Yn amodol ar unrhyw ddarpariaeth yn erthyglau'r cwmni, gall unrhyw un fod yn Gyfarwyddwr oni bai ei fod wedi'i wahardd rhag gweithredu felly dan Ddeddf Anghymwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986 neu ei fod yn fethdalwr nas rhyddhawyd.

Sylwer hefyd bod Cyfarwyddwr neu Gyfarwyddwr Cysgodol cwmni sydd wedi mynd yn fethdalwr wedi'i wahardd rhag bod yn gyfarwyddwr neu'n gyfarwyddwr cysgodol am bum mlynedd, neu rhag cymryd rhan yn y broses o ffurfio neu redeg cwmni sydd â'r un enw, neu enw tebyg iawn i'r cwmni a aeth yn fethdalwr. (Deddf Ansolfedd 1986, adran 216).

Yn olaf, rhai i bob ymgeisydd fod yn 16 oed neu drosodd, ac os yw'n ymeisio i fod yn Gyfarwyddwr Criced Hamdden, rhaid bod y cais wedi'i enwebu a'i eilio gan unigolion sy'n aelodau o ddau sefydliad gwahanol sydd â chyswllt â Criced Cymru.


ALL STARS
ALLSTARSCRICKET.CO.UK